Amddiffyn Arfordir Hen Golwyn

GRIFFITHS

Trosolwg o'r Prosiect

Penodwyd Griffiths gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gynnal gwaith ar Brosiect Amddiffyn Arfordir Hen Golwyn ym mis Mawrth 2021. Mae'r gwaith hwn yn targedu'r rhan o Bromenâd Hen Golwyn sydd fwyaf mewn perygl o ddymchwel - y rhan ddwyreiniol rhwng Ffordd y Rotari a Splash Point (ger Bwâu Hen Golwyn), ac mae'n cynnwys:

- Gosod amddiffynfeydd meini i warchod y morglawdd a'r promenâd
- Ymestyn y geuffos bresennol yn Splash Point
- Amddiffyn gollyngfa Dŵr Cymru/Welsh Water
- Darparu platfform pysgota newydd yn Splash Point
- Gwella strwythurau mynediad i'r traeth
- Gwell mynediad dros grwynau carreg presennol ar y traeth
- Adeiladu morglawdd newydd
- Codi lefel y promenâd

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â Phrosiect Amddiffyn Arfordir Hen Golwyn, ewch i: Prosiectau Amddiffyn yr Arfordir - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Ariennir y prosiect amddiffynfeydd arfordirol hwn gan Lywodraeth Cymru.

Cynnydd y Prosiect - Gwaith ar y Traeth

Hyd yma, rydym wedi cwblhau 720m o wal gynnal garreg a oedd yn cynnwys mewnforio 135,000 tunnell o amddiffynfeydd meini i'r safle. Mae'r ceuffosydd newydd wedi'u hadeiladu ynghyd â slabiau i amddiffyn yr ollyngfa.

Mae'r platfform pysgota newydd wedi'i gwblhau, ynghyd â gosod yr amddiffynfeydd meini o'i amgylch. Mae'r gwaith adeiladu ramp mynediad newydd i'r platfform pysgota a grisiau mynediad newydd i'r traeth yn y camau olaf.

Rydym yn ystyried nifer o opsiynau i alluogi'r cyhoedd i gael mynediad at y platfform pysgota newydd cyn i'r prosiect gael ei gwblhau'n llwyr ac rydym yn gobeithio gallu gwneud hynny yn ystod yr wythnosau nesaf. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni sicrhau bod yr holl waith angenrheidiol wedi'i gwblhau er mwyn darparu mynediad diogel wrth i waith ar y promenâd fynd yn ei flaen.





Eich Swyddog Cysylltu â'r Cyhoedd ar gyfer y prosiect hwn yw Rich Foxhall.

E-bost:
oldcolwynseadefence@alungriffiths.co.uk

Ffôn: 0330 041 2185*

*** Codir tâl am alwadau i'r rhif hwn ar gyfradd galwadau cenedlaethol a chânt eu cynnwys mewn cynlluniau munudau o linellau tir a ffonau symudol**

Caiff galwadau eu monitro y tu allan i oriau gwaith arferol ac mae cyfleuster neges llais ar gael.

Mae'r set hwn o ffotograffau yn dangos y cynnydd sy'n cael ei wneud ar adeiladu'r grisiau mynediad newydd i'r traeth, y morglawdd newydd a'r gwaith parhaus i godi lefel y promenâd oddeutu 1.5 metr (5 troedfedd).

Mae oddeutu 400m o wal newydd wedi'i hadeiladu hyd yma ynghyd â mewnforio 5,500 tunnell o ddeunydd llenwi er mwyn datblygu'r gwaith cyffredinol o godi lefel y promenâd.

Diolch yn fawr i Snowdon Curtis am ddarparu'r lluniau ar ein cyfer

A wyddoch chi eich bod yn gallu dilyn Griffiths ar y cyfryngau cymdeithasol?
Rydym ar LinkedIn, Facebook, Instagram ac X

I ddysgu rhagor am yr holl brosiectau sydd gennym ar y gweill ledled Cymru a gorllewin Lloegr gallwch ymweld â'n tudalen we gymunedol yn ogystal _https://community.griffiths.co.uk/cy/home/ a chlicio ar 'Prosiectau'